RHIFYN
ISSUE
02

Llais Llantrisant

07.02.19

MEDDYGINIAETH
MEDICATION

Fel y gwyddoch, mae Polisi Gofal Iechyd ar gael ar Moodle yr ysgol ers sbel nawr. Os oes angen meddyginiaeth ar eich plentyn, mae modd i'r moddion gael ei weinyddu gyda'ch caniatâd chi ac ewyllys da y staff. Nid oes hawl gan unrhywun i weinyddu moddion heb i riant gwblhau'r ffurflenni perthnasol. Cewch ddod o hyd i'r ffurflenni hyn ar dudalen 19-21 o'r polisi neu o swyddfa'r ysgol. Yn ddelfrydol, mae angen gwneud y trefniadau hyn cyn i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol. Fodd bynnag, os na fydd plentyn yn teimlo'n hwylus, deallwn yn iawn mai gartref, yn gyfforddus, yw'r lle gorau iddo/iddi.

As you are aware, the school's Healthcare Policy has been available on the Moodle for some time now. If your child needs to take medicine, it is possible for a member of staff to administer this with your consent and the staff's good will. No member of staff is able to carry this out without the relevant forms being completed by a parent. You can find these forms on page 19-21 of the policy or paper copies are available at school. Ideally, these arrangements should be made prior to any child returning to school. Please arrange to speak with your class teacher to make these arrangements. However, if any child is unwell, we fully undertand that the best place for them is the comfort of their own homes.



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

22.02.19 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of this first half term
04.03.19 - Plant yn dychwelyd i'r ysgol
Children return to school
12.04.19 - Diwrnod ola'r tymor
Last day of term
30.04.19 - Dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf
Children return for Summer Term

CLYBIAU CARCO
BEFORE AND AFTER SCHOOL CLUBS

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o glybiau carco cyn ac ar ôl ysgol a chlwb brecwast. Os hoffech gofrestru am le yn un o'r clybiau hyn, gweler manylion cyswllt y clybiau isod.
School offers a range of before and after school clubs as well as a free breakfast club. Should you wish to register for a place in any of these clubs, please see contact details below.

Clwb Brecwast cyfrwng Cymraeg RCT (am ddim) / *RCT Welsh medium Breakfast Club (free)*
Neuadd yr Ysgol / *School Hall*
8:10 yb / *am* - **8:50 yb** / *am* **(drysau yn cau am 8:30 yb** */ doors close at 8:30 am)*
Miss L Snell - 01443 237837

Clwb Brecwast Honeybeez (cyfrwng Saesneg - am ffi) / *Honeybeez Breakfast Club (English medium - chargeable)*
Ystafell Gymunedol yr Ysgol / School Community Room
7:30 yb / *am* - **8:50 yb** / *am*
Mrs A Griffiths - 07989 253923

Clwb Carco cyfrwng Cymraeg (am ffi) *Welsh medium 'Clwb Carco' (chargeable)*
Ystafell Gymunedol yr Ysgol / School Community Room
3:45 yp / *pm* - **5:30 pm** / *pm*
Miss S Powell - 07947 341969

Clwb Carco Honeybeez (Saesneg - am ffi) / *Honeybeez After School Club (English - chargeable)*
Plant yn cael eu cludo o'r ysgol i bentref Llantrisant / *Children transported to Llantrisant village*
3:45 yp / *pm* - **5:30 pm** / *pm*
Mrs A Griffiths - 07989 253923

CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU
NEW CURRICULUM FOR WALES

Dyma gyfnod cyffrous i bobl ifanc Cymru. Mae Cwricwlwm newydd i Gymru ar y gweill fydd yn ennyn brwdfrydedd dysgwyr o 3 i 16, gan roi iddynt y sylfaen sydd ei angen i lwyddo mewn byd sy'n newid. Cliciwch yma i ddysgu mwy am y cwricwlwm newydd.



This is an exciting time for the young people of Wales. A new Curriculum for Wales is coming that will enthuse learners from 3 to 16, giving them the foundations needed to succeed in a changing world. Click here to learn more about the new curriculum.









dolen / link



DIGWYDDIADAU
EVENTS

07.02.19
Gêm rygbi (Merched Bl 5 a 6)
Rugby match (Yr.5 & 6 girls)

08.02.19
Gwisgwch ddillad coch i gefnogi @Velindre
Wear red to support @Velindre

08.02.19
@DyddMiwsigCymru
Wales Language Music Day

08.02.19
Gêm bêl-rwyd (CA2)
Netball match (KS2)

13.02.19
Cwis Llyfrau (CA2)
The Book Quiz (KS2)

14.02.19
Ysgol Iau Ton Pentre ac Ysgol Notais yn ymweld
Ton Pentre Junior School and Nottage Primary visiting us

DIOLCH!
THANK YOU!

Diolch, unwaith eto, i'r GRhA am drefnu disgo bendigedig i'r plant ar Ionawr 28ain i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen. Clywon ni nifer o straeon diddorol!



Thanks, once again, to the PTA for organising the great disco for the children on January 28th to celebrate Santes Dwynwen Day. We heard many interesting tales!

@YGGG_Llant_PTA

EISTEDDFOD YR YSGOL
THE SCHOOL EISTEDDFOD

Sôn am ddiwrnod o gystadlu brwd! Llongyfarchiadau i'r holl blant oedd wedi cystadlu. Ymlaen â'r plant buddugol i'r Eisteddfod Gylch yn Ysgol Llanhari ar Fawrth 6ed. Braf oedd croesawu cyn aelodau o staff, Mrs Thomas a Mrs Davies, nôl atom i feirniadu a diolchwn yn fawr iddynt. Llongyfarchiadau i lys Illtyd am ddod yn gyntaf gyda 96 o bwyntiau!

Talk about a full day of heated competition! Congratulations to all who competed on the day and to those who were successful in their competitions. On they go to the Regional Eisteddfod in Ysgol Llanhari on March 6th. It was lovely to welcome back former members of staff, Mrs Thomas and Mrs Davies, to adjudicate and we thank them very much. Congratulations to Illtyd for coming first with 96 points!





Y CWIS LLYFRAU
THE BOOK QUIZ

Dymunwn bob lwc i'r plant fydd yn cystadlu yn erbyn ysgolion Cymraeg eraill y rhanbarth ar Chwefror 13eg. Maent wedi bod yn brysur iawn yn darllen a thrafod 'Dosbarth Miss Prydderch a'r Carped Hud' gan Mererid Hopwood i'w paratoi ar gyfer y rownd gyntaf. Os yn llwyddiannus, ymlaen â nhw i'r rownd nesaf!



Good luck to the children who will be competing against other Welsh medium schools in the district on February 13th. They have been working hard reading and discussing 'Dosbarth Miss Prydderch a'r Carped Hud' by Mererid Hopwood to prepare them for this, the first round of the competition. If successful, the children will advance to the next round!

SIG 31
GGY 31

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda nifer o ysgolion eraill Cymraeg a Saesneg eu cyfrwng y rhanbarth o dan deitl Grŵp Gwella Ysgolion 31 (GGY31) ers nifer o flynyddoedd bellach. Y tymor hwn, rydym yn helpu dwy ysgol o'r grŵp, sef Ysgol Iau Ton Pentre ac Ysgol Gynradd Notais i gystadlu yn yr Eisteddfod Gylch. Ar Chwefror 14eg bydd grwpiau o blant o'r ddwy ysgol yn ymweld â ni er mwyn i'n Criw Cymraeg eu helpu nhw gyda'r darn llefaru ar gyfer yr Eisteddfod. Cewch ddarllen hanes yr ymweliad yn y rhifyn nesaf!

We have been working closely with a number of English medium and Welsh medium schools under the title of School Improvement Group 31 (SIG31) for a number of years. This term, we are helping two schools from the group, Ton Pentre Junior School and Nottage Primary School, to compete in the Urdd Eisteddfod. On February 14th, groups of children from both schools will visit us for our 'Criw Cymraeg' to help them learn their recitation pieces for the Eisteddfod. Read more about their visit in the next edition!

Y CRIW CYMRAEG / *THE WELSH CREW*







Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**